

CYNGOR BRO MACHNO

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Iau, 7fed o Fedi 2020 yn Neuadd Ty'n-y-porth am 7.30

Presennol: Dafydd Gwyndaf (Cadeirydd), Claire Roberts, Eryl Owain, Eluned McFadden, Geraint Thomas ac Eifion Davies, ynghyd â'r clerc, Elfed Williams.

Cofnodion: Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 12 Mawrth 2020 fel rhai cywir, Eluned McFadden yn cynnig a Geraint Thomas yn eilio.

Materion yn codi:

Toiledau: Dywedodd y clerc ei fod wedi cael eglurhad fod y bil trydan yn uchel oherwydd costau gweinyddol er fod y defnydd o drydan yn isel iawn. Nid oedd wedi cael mwy o wybodaeth gan y Cyngor Sir am y paneli solar.

Derbyniwyd cynnig gan Bwyllgor y Neuadd i lanhau'r toiledau a chadarnhawyd y byddai cyfraniad o £40 y mis fel cydnabyddiaeth.

Materion ffyrdd: Roedd y broblem yn parhau o gerbyd wedi ei adael ar ochr y ffordd yn Cwm, yn ogystal â cherbyd ym Mhenmachno. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu ymhellach â'r Cyngor Sir.

Maes parcio'r Machno: Dywedodd y clerc ei fod wedi cysylltu ag Awdurdod y Parc Cenedlaethol ond heb dderbyn ymateb. Nodwyd bod cyflwr y maes parcio yn parhau'n anfoddfaol ac yn anharddu'r pentref.

Swydd Clerc: Roedd cyfweiliad wedi ei gynnal efo'r ymgeisydd. Penderfynwyd nad oedd yn adeg hwylus i symud ymlaen i benodi clerc, dan yr amodau presennol. Cytunodd y clerc i barhau am y tro a mynegwyd y farn y byddai'n fwy manteisiol cael rhywun lleol i'r swydd.

Cwt Hers: Penderfynwyd hysbysebu bod y Cwt Hers a'r ystorfa ynghlwm wrth y toiledau ar gael ar rent.

Tŷ Mawr Wybrnant: Penderfynwyd anfon at yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn mynegi anfodlonrwydd bod Tŷ Mawr wedi cau ac nad oes bwriad i gael gofalwr i fyw ynio'n barhaol.

Materion Ariannol:

Cyflwynwyd Mantolen Ariannol 2019-20 a phenderfynwyd ei chadarnhau, Eluned McFadden yn cynnig a Claire Roberts yn eilio.

Materion eraill:

Aelodaeth o'r Cyngor: Penderfynwyd gwahodd ymgeiswyr am ddwy sedd wag ar y Cyngor ac i symud ymlaen i gyfethol os nad oedd rhgai wedi mynegi diddordeb.

Sgipiau Cymunedol: Penderfynwyd archebu dau sgip, un i Cwm ac un i Benmachno.

Cais Cynllunio: Derbyniwyd copi o gais cynllunio ar gyfer adeilad ffarm yn Llechwedd Hafod Isaf. Mynegwyd diddordeb gan y Cadeirydd a gadawodd y cyfarfod. Cynigwyd gan Eluned McFadden ac eiliwyd gan Geraint Thomas bod y cyngor yn cefnogi'r cais.